CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 25 Mawrth 2025 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Karen Edwards, Terry Mendies, Gareth Sandilands, ac Andrea Tomlin

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS) a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT), Addysg (GD), Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR), Gwasanaethau Plant (RM), Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartefedd (AL); Rheolwr Gwasanaethau AD (LD), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gwe-ddarlledwr])

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Bu i'r Cynghorydd Alan James ddatgan cysylltiad personol yn eitem 5 y rhaglen gan fod ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE).

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2025.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2025 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

5 DOD Â'R GWASANAETH GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL I BEN

Cyflwynodd y Cynghorydd Diane King yr adroddiad, gan fanylu ar y newidiadau angenrheidiol, a chynhigiodd ffordd ymlaen i fynd i'r afael â swyddogaethau statudol gwella ysgolion yn dilyn cau'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE).

Sefydlwyd GwE drwy gytundeb rhwng y chwech o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2013. Ym mis Ionawr 2024, cyfeiriodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar y pryd i adolygiad o bartneriaethau Addysg a gwelliant ysgolion i symud i ffwrdd i fodel rhanbarthol ehangach i sefydlu partneriaethau ar lefel fwy lleol, a byddai GwE yn peidio â bodoli fel consortiwm rhanbarthol ar 31 Mai, 2025. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Cabinet derfynu'r cytundeb hwnnw'n ffurfiol a diddymu Cyd-bwyllgor GwE. Darparodd yr Aelod Arweiniol sicrwydd y byddai gwella safonau mewn ysgolion yn parhau, a bod y Pennaeth Addysg yn gweithio gyda chydweithwyr ledled Gogledd Cymru a, a byddai Adrannau AD a'r Gyfraith yn parhau gyda'u cefnogaeth i ysgolion. Roedd codi safonau mewn ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Mynychodd y Pennaeth Addysg ar gyfer yr eitem hon hefyd. Yn ystod y drafodaeth codwyd pryderon ynghylch y gost, ansicrwydd o ran newid, a chodwyd cwestiynau mewn perthynas â'r symudiad i ffwrdd o weithio'n rhanbarthol yn yr achos hwn, pan roedd yn ehangu mewn ardaloedd eraill, rhesymeg tu ôl penodi'r awdurdod arweiniol, craffu gwaith GwE, goblygiadau ar gyfer ysgolion, a datblygiad y gwasanaeth wrth symud ymlaen. Ymatebodd y swyddogion i'r cwestiynau hynny a chwestiynau pellach fel a ganlyn –

- manylion o gymhlethdod y sefyllfa a'r amwysedd o ran costau staffio o wybod proses barhaus trefniadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth yn y chwe awdurdod lleol, a dod â threfniadau contract i ben, gyda chyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gael yn y flwyddyn ariannol bresennol i helpu gyda'r costau hynny
- sefydlu Bwrdd Trosiannol i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau GwE i'r awdurdodau lleol a'r strwythurau a ddatblygwyd i ddarparu cefnogaeth i ysgolion ar lefel awdurdod lleol unigol
- roedd gan y costau trosiannol natur untro a byddai'r cyllid ar ffurf grantiau, neu'n defnyddio cronfeydd wrth gefn (byddai'r gyllideb drosiannol £2 miliwn ar gyfer Cymru gyfan yn annhebygol o dalu am y costau); roedd costau parhaus y gwasanaeth yn dilyn diddymiad GwE wedi cael eu cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a byddai arbedion cylchol yn sgil costau llai y gwasanaeth newydd
- roedd y rhesymeg tu ôl y penderfyniad hanesyddol i benodi Cyngor Gwynedd fel awdurdod arweiniol ar gyfer GwE yn anhysbys, a byddai trefniadau gwasanaeth newydd yn cael eu harwain gan bob awdurdod lleol unigol gydag ychydig o gydweithio gyda'r awdurdodau eraill
- nodwyd cyfreithlondeb sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn 2021, yn ogystal â'u cyfrifoldebau yn nhermau gweithio'n rhanbarthol mewn meysydd penodol
- symud i ffwrdd o fodel rhanbarthol ehangach ar gyfer y gwasanaeth gwella ysgolion, gydag adolygiad haen ganol i'w gwblhau yn genedlaethol ledled Cymru, ac ymgynghoriad gyda Phenaethiaid ac ysgolion; y canlyniad oedd

tueddiad i symud i ffwrdd o ddull rhanbarthol o weithio i ganolbwyntio fwy yn lleol. Serch hynny, roedd disgwyliad bod cydweithrediad o hyd gydag awdurdodau lleol ar brosiectau a chynlluniau penodol, ond byddai ffocws lleol penodol yn hytrach na rhanbarthol

- Roedd ysgolion Sir Ddinbych fel arfer yn gwerthfawrogi gwaith GwE, a bod gwaith ac arfer da yn cael ei gymryd ymlaen i'r gwasanaeth newydd, a chytunodd aelodau eraill am yr ymgysylltiad cadarnhaol gyda'r gwasanaeth; roedd GwE wedi bod yn mynd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i drafod materion megis addysg yn y cartref, safonau, a phresenoldeb, heb unrhyw argymhellion negyddol ar y gwaith hwnnw
- Amlygodd y Cynghorydd Gareth Sandilands, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad bresenoldeb GwE mewn cyfarfodydd wrth ystyried materion yn ymwneud ag addysg i ddarparu safbwynt ac arbenigedd annibynnol, a oedd wedi cael ei werthfawrogi; byddai'r newidiadau'n cael eu craffu cyn gynted a bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei fewnosod
- manylwyd ar y gwaith parhaus wrth ddatblygu'r gwasanaeth newydd, a thrafodaethau ar lefel genedlaethol a lleol, gan ystyried arferion da a gwersi a ddysgwyd, a llywio'r broses newydd er mwyn diwallu anghenion ysgolion i sicrhau eu bod wedi derbyn yr un lefel o wasanaeth a chefnogaeth; byddai rhagor o waith yn canolbwyntio ar addysg a chefnogaeth gan ysgolion eraill sy'n rhagori mewn meysydd allweddol er mwyn i eraill elwa ohonynt, gan ganolbwyntio ar ysgolion a diwallu eu hanghenion.
- cydnabu bod hwn yn newid sylweddol i ysgolion a allai achosi pryder ac ansicrwydd, ond roedd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gydag ysgolion er mwyn rhannu gwybodaeth ac roedd gan y cyngor bolisi drws agored ar gyfer ysgolion.

Ar ddiwedd y drafodaeth, amlygodd yr Aelod Arweiniol y byddai newid yn darparu cyfleoedd, a rhoddodd sicrwydd o ran y llwyth gwaith sylweddol er mwyn sicrhau cyfnod trosglwyddo llyfn o GwE i'r awdurdod lleol yn Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD –

(a) Bod y Cyngor hwn yn cymeradwyo terfynu'r cytundeb i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru yng nghyd-destun y Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol (GwE) ar 31 Mai 2025 a diddymu'r gofyn am Gyd-bwyllgor GwE yn sgil hynny;

(b) Bod y Cyngor hwn yn cadarnhau ei rwymedigaeth dan y contract wrth ddod â'r trefniant hwn i ben, a

(c) Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

[Fe wnaeth y Cynghorydd Rhys Thomas ymatal wrth bleidleisio ar yr eitem uchod.]

6 POLISÏAU AD - POLISI AFLONYDDU RHYWIOL NEWYDD A'R POLISI ADLEOLI A DDIWEDDARWYD

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu diwygiadau i'r Polisi Aflonyddu Rhywiol a'r Polisi Adleoli.

Roedd yr adroddiad yn trafod dau bolisi cadarnhaol i gefnogi staff a'u lles, a darparwyd crynodeb o bob polisi, fel a ganlyn -

Polisi Aflonyddu Rhywiol – roedd hwn yn bolisi newydd a luniwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth Cydraddoldeb newydd a oedd yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i gymryd camau 'rhesymol' i atal aflonyddu rhywiol. Nod y polisi yw sicrhau bod pawb yn deall beth yw aflonyddu rhywiol a'r ymddygiad proffesiynol a ddisgwyliwn yn y Cyngor, a phennu ein cyfrifoldebau ninnau fel Cyngor i atal aflonyddu rhywiol. Roedd hefyd yn egluro sut i roi gwybod am aflonyddu rhywiol, y broses y dylid ei dilyn a'r cymorth sydd ar gael. Daeth yr Asesiad o'r Effaith ar Les i'r casgliad bod yr effaith yn gadarnhaol. I fewnosod y polisi yn niwylliant yr awdurdod, byddai'n cael ei gefnogi gan Becyn Gwaith Atal i Reolwyr, a fydd yn cynnwys hyfforddiant, dogfen ar gyfer cyflwyno'r polisi mewn cyfarfodydd tîm a chyflwyniadau diogelwch, ynghyd â thempledi ar gyfer asesiadau risg i wasanaethau eu cwblhau a'u cadw'n gyfredol.

Polisi Adleoli – roedd y polisi hwn wedi bod yn destun adolygiad llawn ac roedd yr adroddiad yn cynnig crynodeb o'r diwygiadau a wnaed. Roedd y polisi'n canolbwyntio ar dair sefyllfa bosib sy'n creu'r angen i adleoli: gallu, colli swydd a meddygol. Dan y polisi presennol, dim ond gweithwyr gyda mwy na dwy flynedd o wasanaeth parhaus a oedd yn cael eu rhoi ar y gronfa adleoli, ac mae'r fersiwn newydd yn sicrhau bod pob gweithiwr yn cael eu rhoi ar y rhestr adleoli, waeth beth fo hyd eu gwasanaeth. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys 'cwestiynau cyffredin' buddiol a gafodd eu diweddaru.

Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Rheolwr Gwasanaeth Pobl ac AD yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Roedd y polisïau wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad gyda'r Undebau Llafur ac wedi'u cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr.

Trafododd y Cabinet y polisïau gyda'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion. Roedd y Polisi Aflonyddu Rhywiol yn bolisi cyflogaeth i staff, a byddai ymddygiad aelodau etholedig mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol, ac yn y blaen yn cael ei gynnwys yn y Cod Ymddygiad Aelodau. Ar gais yr Aelod Arweiniol, cytunwyd y byddai modiwl eDdysgu ar gael i aelodau etholedig i gefnogi eu dealltwriaeth o'r mater. Roedd yr Undebau Llafur wedi cymryd rhan weithredol mewn llunio'r polisi, a oedd wedi cael ei dderbyn yn dda gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac roedd yr Undebau Llafur wedi gwerthfawrogi eu cyfranogiad yn y broses honno. Diolchodd yr Aelod Arweiniol i'r holl fudd-ddeiliaid am eu cyfraniadau a'u cyfranogiad gyda'r polisi newydd. Roedd y camau nesaf yn cynnwys mewnosod y polisi i ddiwylliant yr awdurdod a chodi ymwybyddiaeth, a fyddai'n debygol o arwain at gynnydd i'r nifer o achosion a adroddir. Byddai effeithiolrwydd y polisi yn bennaf yn cael eu mesur i ddechrau gan y nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd, a dros gyfnod hirach o amser sy'n cael ei adlewyrchu yn yr arolwg staff.

Gofynnwyd am eglurhad dros eiriad y Polisi Adleoli a'i oblygiadau o ganlyniad i'r newid o ran symud i ffwrdd o isafswm o ddwy flynedd o wasanaeth cyn adleoli. Amlygodd y Cynghorydd Emrys Wynne yn benodol yr amddiffyniad ar gyfer staff

sydd dan y polisi dwy flynedd ar hyn o bryd, yn benodol o ganlyniad i ymddiswyddiad, ac i ddiogelu'r adleoliadau dilynol a all effeithio rhai aelodau o staff yn negyddol. Gan gydnabod y pryderon hynny, amlygwyd bod y rhesymau ar gyfer adleoliad yn amrywio a bod y trosglwyddiad yn arddangos buddion cadarnhaol ar gyfer staff a all wneud cais am adleoliad, ni waeth hyd eu gwasanaeth, ac ystyriwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd gofal o ran hynny. Rhoddwyd sicrwydd bod yr Undebau Llafur wedi cefnogi'r newid yn llawn, ac yn ymestyn eu hamddiffyniad i bob aelod o staff o ddiwrnod cyntaf eu gwaith. Derbyniwyd bod yr Undebau Llafur yn fudd-ddeiliad allweddol wrth ddatblygu'r polisi.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Polisi Aflonyddu Rhywiol a'r Polisi Adleoli, ac yn

(b) cadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 a 4 i'r adroddiad), ei ddeall a'i ystyried wrth ddod i benderfyniad.

7 POLISI SY'N CEFNOGI MAETHU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu'r Polisi Cefnogi Maethu.

Roedd y polisi'n arddangos bod y Cyngor yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae gofalwyr maeth yn eu gwneud i gymdeithas a bywydau plant sy'n derbyn gofal. Roedd yn nodi'r ymrwymiad ychwanegol a'r gofynion ar gyfer gofalu am blant sy'n derbyn gofal gan ddarparu absenoldeb arbennig ychwanegol i aelodau o staff sy'n ofalwyr maeth, a'r sawl sydd yn y broses gael asesiad. Amlygodd yr Asesiad o Effaith ar Les sut byddai'r polisi'n cynorthwyo wrth recriwtio a chadw gofalwyr maeth i helpu gyda diogelu plant sy'n derbyn gofal o fewn eu cymunedau eu hunain, a sicrhau ei bod yn cadw cysylltiadau cryf gyda theuluoedd, ffrindiau a'r ysgol. Cafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Undebau Llafur a'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr.

Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant bod y polisi wedi bod yn ychwanegiad pwysig i'r cynnig craidd i ofalwyr maeth, a byddant yn codi ymwybyddiaeth bellach ac yn annog staff i ddod ymlaen i gefnogi plant yn lleol. Roedd cynyddu'r nifer o ofalwyr maeth mewnol yn flaenoriaeth, a byddai'r polisi yn cefnogi'r broses, ac yn darparu amser i ffwrdd o'r gwaith i staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol a chyfarfodydd gofynnol.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- manylion o'r camau sy'n rhan o'r broses o ddod yn ofalwr maeth, ac yn ystod y camau asesu byddai gofalwyr maeth posib angen amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgymryd â'r broses, yn benodol er mwyn mynd ar hyfforddiant tri diwrnod gofynnol
- byddai'r polisi hefyd yn golygu ffordd o gyhoeddi bod y Cyngor yn awdurdod sy'n cefnogi maethu, ac yn cynnig cyfle arall i godi ymwybyddiaeth

- ymhelaethwyd ymhellach ar y prosiect i wella'r 'cynnig craidd' i ofalwyr maeth, gan gadarnhau y byddai Swyddog Prosiect yn cychwyn ym mis Ebrill i barhau gyda'r gwaith a nodi mentrau a chynigion ar draws yr holl wasanaethau a hyrwyddo'r mater, yn benodol mewn ysgolion, a gwaith pellach mewn perthynas â hynny wrth symud ymlaen
- roedd tua 45 o deuluoedd maethu yn y sir ar hyn o bryd, a'r nod ar gyfer y flwyddyn nesaf oedd diogelu 10 aelwyd newydd a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr; roedd 3 allan o'r 8 cwpl a ddaeth i'r sesiwn hyfforddi recriwtio diwethaf yn gweithio i'r Cyngor, ac wedi cymryd absenoldeb arbennig i fynd i'r sesiwn
- yn gyfreithiol, gallwch fod yn ofalwr maeth ar gyfer un darparwr ac nid sawl un
- byddai rheolwr atebol y gweithiwr yn cymeradwyo'r absenoldeb yn ôl disgresiwn, a oedd yn unol â'r holl geisiadau eraill am amser i ffwrdd, a rhoddwyd sicrwydd bod y dybiaeth y rhoddir absenoldeb ac eithrio bod amgylchiadau eithriadol yn cael ei fonitro'n agos.

Croesawodd y Cabinet y polisi fel ffordd gadarnhaol o annog a chefnogi gofalwyr maeth presennol a darpar ofalwyr maeth drwy'r broses faethu a chyfrifoldebau parhaus. Talwyd teyrnged i rôl werthfawr gofalwyr maeth a'r buddion i blant a phobl ifanc, ac ailadroddwyd ymrwymiad y Cyngor i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i gynyddu'r nifer o ofalwyr maeth mewnol.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Polisi Cefnogi Maethu, ac yn

(b) cadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad), ei ddeall a'i ystyried wrth ddod i benderfyniad.

8 TROSGLWYDDO BARGEN DWF GOGLEDD CYMRU I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r cynnig i drosglwyddo gweithrediad Bargen Dwf Gogledd Cymru i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, yn unol â'r penderfyniad mewn egwyddor a wnaeth y Cabinet blaenorol ym mis Rhagfyr 2021.

Roedd sefydliad a chyfrifoldebau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2020 a Chyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2021 wedi'u nodi yn yr adroddiad, ynghyd â phenderfyniad mewn egwyddor y Cynghorau Cyfansoddol yn 2021/22 i drosglwyddo'r Fargen Dwf i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Roedd y penderfyniad gwreiddiol yn benderfyniad mewn egwyddor gan fod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i ddatblygu, gyda chyfres derfynol o reoliadau ym mis Ebrill 2023. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Weithdy'r Cyngor diweddar a hwyluswyd gan Ambition North Wales, a oedd yn boblogaidd iawn gyda thrafodaeth dda ac adborth gan aelodau.

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes y Cabinet drwy elfennau technegol y trosglwyddiad a'r argymhellion ar gyfer ystyriaeth. Sir Ddinbych oedd yr olaf o'r chwe awdurdod lleol i dderbyn yr adroddiad, ac roedd yr awdurdodau eraill wedi cytuno i'r trosglwyddiad ac roedd Cyd-bwyllgor Corfforedig

Gogledd Cymru wedi cytuno i arwyddo'r cytundeb. Er mwyn i'r trosglwyddiad ddigwydd erbyn 31 Mawrth 2025, gofynnwyd i'r Cabinet gytuno bod y penderfyniadau yn cael eu gweithredu heb alw i mewn.

Trafododd y Cabinet fuddion yr adroddiad ymhellach gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraeth a Busnes yn ymateb i gwestiynau, gan ymhelaethu ar fanteision y trosglwyddiad oherwydd y cyfuniad aelodaeth y ddau gorff, osgoi cael sawl corff rhanbarthol gyda swyddogaethau tebyg, a manteision cyfreithiol a gweithredol Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru yn dod yn endid corfforaethol ei hun. Os yw argymhellion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, byddai Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru'n dod yn gorff atebol mewn perthynas â'r Fargen Dwf gyda throsglwyddiad pob cyfrifoldeb o Gyngor Gwynedd fel awdurdod cynnal a chorff cyfrifol i'r Cyd-bwyllgor, gan gynnwys staff a fyddai'n cael eu cyflogi ganddynt. Roedd penodi Cyngor Gwynedd fel awdurdod cynnal presennol a chorff atebol yn benderfyniad hanesyddol yn dilyn trafodaeth rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol wrth sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) *Cytuno i sefydlu Cytundeb Partneriaeth a Chyllido (Atodiad 2 i'r adroddiad) a throsglwyddo swyddogaeth y Corff Atebol, cyfrifoldeb dros gyflawni Bargen Dwf Gogledd Cymru a'r trefniadau cyllido ar gyfer y Fargen Dwf i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny;*

(b) *Cytuno i amnewid a neilltuo, fel y bo'r gofyn, i drosglwyddo gweithrediad Bargen Dwf Gogledd Cymru a'r hawliau a rhwymedigaethau ym mhob cytundeb cyllido sydd yng ngofal Cyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais") i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ("y Cyd-bwyllgor Corfforedig");*

(c) *Cytuno i drosglwyddo ac amnewid a/neu neilltuo'r holl fuddiannau yn y portffolio o brosiectau a ariennir gan Fargen Dwf Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw gytundebau, taliadau a phrydlesi ategol gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig;*

(d) *Cytuno i drosglwyddo a/neu neilltuo'r holl falansau ariannol, arian yn ddyledus ac asedau yng ngofal Cyngor Gwynedd ar ran Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.*

(e) *Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gymeradwyo a gweithredu'r cytundebau, y gweithredoedd a'r holl ddogfennau cyfreithiol eraill ar eu ffurf derfynol, fel y bo'n angenrheidiol i weithredu'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (b) a (c) uchod;*

(f) *Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Partneriaeth a Chyllido, cytuno i derfynu'r cytundeb GA2 a dirwyn Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ben;*

(g) *Cytuno i drosglwyddo atebolrwydd i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu Bargen Dwf Gogledd Cymru yn amodol ar amnewid y Fargen Dwf a chymeradwyo Rheolau Sefydlog ychwanegol sy'n cynnwys telerau allweddol y Cytundeb Cydweithio ("GA2") rhwng y chwech o Gynghorau Cyfansoddol a'r pedwar o bartïon Addysg, a*

(h) *Chytuno i roi'r penderfyniadau uchod ar waith yn ddiymdroi heb eu galw i mewn, yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor, fel y gellir trosglwyddo ar 31 Mawrth 2025 neu cyn hynny.*

Ar y pwynt hwn (11.30am), cymerwyd egwyl am luniaeth.

9 GOSOD FFIOEDD CARTREFI GOFAL PRESWYL A NYRSIO 2025/26

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gosod ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio Pobl Hŷn ar gyfer 2025/26.

Roedd ffioedd Cartrefi Gofal yn cynrychioli maes sylweddol o wariant, gyda thua £14.1 miliwn yn cael ei ddyrannu i 382 o leoliadau mewn 85 cartref gofal. Roedd darpariaeth gofal yn flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor gyda buddsoddiad parhaus i ddiogelu'r preswylwyr mwyaf diamddiffyn. Roedd diweddariad ar ymgysylltiad gyda darparwyr gofal wedi'i nodi yn yr adroddiad, ynghyd â'r ffioedd arfaethedig, a oedd wedi ystyried ffactorau megis y Cyflog Byw Gwirioneddol, newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol, gan gynnwys y newid trothwy, a chwyddiant. Roedd hi'n hanfodol bod dull teg a chynaliadwy o weithio yn cael ei gynnal o ran ariannu gofal, ac roedd buddsoddiad y Cyngor yn Care Cube, sef methodoleg sy'n cael ei nodi gan ddata ac yn darparu dull cyson o weithio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i osod ffioedd, yn ddatblygiad allweddol. Roedd y buddsoddiad yn sicrhau bod ffioedd yn cael eu gosod yn dryloyw ac yn gyfrifol, gan greu cydbwysedd rhwng cefnogi darparwyr gofal gyda ffioedd teg a chynaliadwy a diogelu gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr. Roedd yn alinio gyda'r ymrwymiad rhanbarthol i degwch a chysondeb ledled Cymru hefyd.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Heaton bod y Cyngor yn gwerthfawrogi ei ddarparwyr gofal, ac ni ddylent deimlo eu bod yn cael eu talu'n annheg o ganlyniad i'r cynnig. Roedd gan y Cyngor bolisi drws agored a byddai defnyddio Care Cubed yn sicrhau pris sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gofal ac yn cefnogi sector gofal cynaliadwy.

Ymatebodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd i gwestiynau, gan ymhelaethu ar Care Cubed fel ffordd dryloyw o alluogi trafodaethau gyda darparwyr sydd â'r bwriad o ddatrys anghydfod o ran ffioedd gofal, gan ystyried amgylchiadau unigol yn sgil gwahaniaethau mewn darparwyr, megis maint cartrefi gofal, categori gofal, ac ati. Roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi buddsoddi yn Care Cubed, ac roedd y data'n fwy cyfoethog po fwyaf a ddefnyddiwyd, er mwyn canolbwyntio ar yr ardal leol a darparu meincnod cliriach, yn ogystal â dadansoddi'r manylion a allai arwain at ffi wahanol na'r hyn sydd eisoes yn bodoli. Roedd tri darparwr cartref gofal wedi ymateb i'r ymgynghoriad ffioedd, ac unwaith roedd y ffioedd wedi cael eu cymeradwyo, byddai swyddogion

yn ymgysylltu gyda nhw i gwblhau'r ymarfer Care Cubed. Yn nhermau'r broses o osod cyllideb, roedd cydweithio agos gyda'r Tîm Cyllid i fonitro'r ffioedd gofal wrth symud ymlaen, yn seiliedig ar y tybiaethau yn y ffioedd arfaethedig, gyda thri darparwr yn unig a oedd wedi herio'r ffioedd hynny ar hyn o bryd. Serch hynny, roedd galw ar gyfer y flwyddyn i ddod yn anhysbys, a petai'n angenrheidiol, byddai'r pwysau ar y gyllideb yn cael ei addasu yn ystod y flwyddyn, ond roedd yr ymdrechion gorau'n cael eu gwneud i reoli hynny'n effeithiol.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) cymeradwyo cynyddu Ffioedd Gofal, yn ychwanegol i ffioedd 2024/25, o ran Cartrefi Nyrsio a Phreswyl i Bobl Hŷn ar gyfer 2025/2026 fel a ganlyn -

- *3.8% ar gyfer Gofal Preswyl Safonol*
- *6.6% ar gyfer Gofal Preswyl i Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)*
- *5.9% ar gyfer Gofal Nyrsio Safonol*
- *7.2% ar gyfer Gofal Nyrsio i Henoed Bregus eu Meddwl (EMI)*

(b) cymeradwyo y bydd unrhyw ddarparwr nad yw'n derbyn y ffioedd arfaethedig yn dilyn ymarfer Care Cubed, er mwyn pennu pris teg am eu gofal (ymarfer llyfr agored yn flaenorol).

10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 oedd £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 2023/24)
- rhagwelwyd y byddai tanwariant o £102,000 mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth
- arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau ar gyfer cyllideb 2024/25 (£10.384 miliwn) a chynnydd ar wneud arbedion a gymeradwywyd oedd yn parhau i gael eu holrhain/monitro
- y wybodaeth ddiweddaraf am Ysgolion, y Cyfrif Refeniw Tai a Rheoli'r Trysorlys.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Roedd disgwyl tanwariant o £102,000 ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol o gymharu â thanwariant o £4.559 miliwn fis diwethaf. Roedd y symudiad yn ymwneud yn bennaf â'r swm a neilltuwyd i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (£3.956 miliwn) a gymeradwywyd gan y Cabinet diwethaf a phwysau cynyddol ar draws y gwasanaeth (£501,000). Mae gwasanaethau yn gyffredinol yn parhau i orwario mewn meysydd sy'n cynnwys Addysg a Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, a Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad. Roedd meysydd o orwariant gwasanaethau yn parhau

i gael eu gosod yn erbyn y tanwariant ar gyllidebau corfforaethol. Byddai'r balans a ragwelwyd ar y Cyfrif Refeniw Tai ar ddiwedd y flwyddyn yn gostwng o £1.2 miliwn i £775,000 ac roedd y sefyllfa ar falansau ysgolion yr un fath a'r mis diwethaf, a ragwelwyd yn ddiffyg cyffredinol o £2.1 miliwn. Roedd y tabl monitro arbedion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac yn manylu ar drosolwg o gynnydd.

Daeth y flwyddyn ariannol i ben ar 31 Mawrth 2025 a gallai'r Tîm Ariannol symud i gwblhau cyfrifon diwedd blwyddyn, a llunio'r Datganiad Cyfrifon. Oherwydd y system ariannol newydd, roedd rhagor o amser wedi'i ddyrannu i'r broses honno, a byddai safle diweddaraf 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at y gorwariant yn y Gwasanaethau Tai ac Amgylcheddol mewn perthynas â chostau cynyddol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff (£1.628 miliwn) a gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf (£807,000). Eglurwyd bod y £1 miliwn ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff yn 2025/26, gyda'r costau ychwanegol yn 2024/25 yn ymwneud â'r flwyddyn drosglwyddo ar gyfer cyflwyno'r system wastraff newydd, a'r addasiad ariannol i'r perwyl hynny. O fewn y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2025/26, cydnabu nad oedd y gyllideb cynnal a chadw yn ystod y gaeaf yn ddigonol ar gyfer mynd i'r afael â thywydd garw, a mis diwethaf, roedd y Cabinet wedi creu cronfa wrth gefn o'r cyllid ar gael yn y flwyddyn ariannol gyfredol i dalu am yr amodau tywydd garw nad oes modd eu rhagweld. Amlygwyd y gostyngiad i gronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai hefyd, ac roedd trafodaethau ynghylch manteision gosod lefel isafswm o falansau o ran hynny. Esboniodd y Cynghorydd Rhys Thomas, o wybod y gostyngiadau parhaus i'r balansau blwyddyn ar ôl blwyddyn, byddai angen proses flaenoriaethau ar feysydd gwariant i fod o'r budd gorau i denantiaid.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.*

11 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried.

PENDERFYNWYD *nodi rhaglen waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm.